Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llangelynnin
# Henryd
# Conwy
# LL32 8YB

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith — Cyrraedd y Nod — The Corporate Standard — Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd — Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llangelynnin yn ysgol wledig, sydd wedi ei lleoli ym mhentref Henryd ar gyrion tref Conwy. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun, ac fe ddaw nifer helaeth o'i disgyblion o'r ardaloedd cyfagos. Cynhelir yr ysgol gan Awdurdod Addysg Conwy ond daw o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae 91 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 14 o blant oed meithrin rhan-amser. Mae'r niferoedd disgyblion wedi cynyddu dros y chwe blynedd diwethaf.

Mae'r canran o'r disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi codi'n ddiweddar i tua 12%, ond yn parhau'n sylweddol is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae dros 24% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig er nad oes un disgybl â datganiad.

Daw tua 56% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Daw tua un y cant o ddisgyblion yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Chwefror 2009. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llangelynnin yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,588 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £13,941 a'r lleiafswm yw £2,935. Mae Ysgol Llangelynnin yn safle 40fed o'r 61 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Llangelynnin yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais;
- bod safon yr addysgu'n dda; a bod
- staff yn annog disgyblion i gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg a'u lles.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, a'i bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion;
- bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn briodol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol; a
- bod y bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau bod yr holl ddisgyblion mwy abl a thalentog yn gwneud cynnydd priodol;

A2 datblygu ymhellach y cyfleoedd i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm;

A3 rhannu arferion gorau yr addysgu ar draws pob dosbarth; a

A4 ffurfioli gweithdrefnau hunan arfarnu a datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr yn y broses.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, gyda mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg. Mae medrau gwrando bron pob disgybl yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol i'r hyn maent wedi ei glywed ac yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol mewn gwersi. Gall mwyafrif y disgyblion drin a thrafod amrywiol bynciau yn briodol yn y Gymraeg ar draws yr ysgol, ac yn y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Defnyddiant eirfa eang sy'n benodol i'r themâu dan sylw.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant clir yn y ddwy iaith, ac ysgrifennu i safon sydd eto'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon uchel, gan amrywio arddull mewn gwahanol gyd-destunau.

Gall mwyafrif y disgyblion ddwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda a gall y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn gymhwyso'u dealltwriaeth o gysyniadau mewn sefyllfaoedd newydd. Mae bron pob un yn datblygu'r medrau ehangach sydd eu hangen er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan ac i'w paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Nid oes patrwm o wahaniaethau mewn cyrhaeddiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim o gymharu â'r gweddill. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ond nid yw'r disgyblion mwy abl a thalentog bob amser yn cyrraedd eu potensial.

Mae'r safonau a arsylwyd arnynt adeg yr arolygiad yn uwch nag y mae'r data'n ei awgrymu.

Mae'r tueddiadau yn y canran o ddisgyblion saith oed sy'n cyrraedd lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad ar i lawr dros gyfnod o bum mlynedd. Mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae canlyniadau'r ysgol yn gyffredinol yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Mae'r canran a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 3) yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn 2011.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae canlyniadau disgyblion 11 oed yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 yn gyffredinol uwch o gymharu â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Mae'r canlyniadau mewn Saesneg yn debyg i gyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.

Mae'r canran a gyflawnodd lefel 5 neu uwch yn 2011 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn mathemateg ond yn gyffredinol yn is na'r teulu yn y pynciau eraill. Er nad oes patrwm o wahaniaeth rhwng lefelau perfformiad bechgyn o gymharu â merched yng nghyfnod allweddol 2 dros gyfnod, yn 2011, roedd perfformiad y merched yn sylweddol uwch na'r bechgyn.

**Lles: Da**

Mae safonau lles y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol fel chwaraeon a gemau.

Mae ymddygiad yn dda. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i eithrio unrhyw ddisgybl yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd. Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maent yn ymateb yn dda i gymhelliant ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae canran presenoldeb dros y tri thymor diwethaf ar gyfartaledd ychydig o dan 95% sy'n uwch na chyfartaledd holl ysgolion Cymru ac yn agos i ffigwr y teulu o ysgolion tebyg. Mae ychydig o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr.

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco yn frwdfrydig wrth gynnig sylwadau ynglŷn â gwella'r ysgol, ac yn teimlo bod y syniadau hynny'n cael eu cymryd o ddifrif.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ymwybyddiaeth gref gan y disgyblion o'r ardal a'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu diddorol ac eang sy'n ennyn diddordeb disgyblion, ac yn ymdrin yn effeithiol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r athrawon yn cydweithio'n dda wrth gynllunio rhaglenni hyblyg ac yn defnyddio eu harbenigedd yn effeithiol Mae hyn cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn meysydd penodol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn effeithiol, ond nid yw medrau rhifedd wedi eu hymgorffori'n ddigon cyson i'r profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae cynlluniau priodol ar gyfer darparu a datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Mae'r ddarpariaeth hon yn effeithiol, ac yn galluogi'r mwyafrif o ddisgyblion i wneud cynnydd da drwy'r ysgol gyfan. Rhoddir cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan drwy ymweliadau rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau priodol i ennyn diddordeb y disgyblion mewn cynaladwyedd. Mae staff yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i

chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac o fewn y gymuned fyd eang. Trwy astudiaeth o wledydd eraill, a thrwy'r cyngor eco, rhoddir gyfleoedd priodol i ddisgyblion gasglu at elusennau, ailgylchu, defnyddio llai o ynni, a phrynu nwyddau masnach deg.

## Addysgu: Da

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth briodol o anghenion y mwyafrif o'r disgyblion yn eu dosbarth. Mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth er mwyn cefnogi'r addysgu a datblygu medrau disgyblion yn unigol neu mewn grwpiau bychain.

Yn y gwersi gorau, ceir cyflymdra addas, tasgau diddorol, cwestiynu treiddgar a pherthynas waith gynhyrchiol rhwng athrawon a disgyblion sy'n meithrin parch a chwrteisi. Gwneir defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel cyfrwng addysgu.

Yn yr ychydig gwersi lle nad yw'r addysgu cystal, er bod y gwaith wedi ei wahaniaethu o ran oedran, nid yw athrawon bob tro wedi ystyried anghenion disgyblion ar lefelau gallu gwahanol.

Mae systemau asesu a chymedroli effeithiol gan yr ysgol sy'n crynhoi cynnydd y disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o'r drefn hon er mwyn cynllunio'r ffordd ymlaen. Mae system dracio gyfrifiadurol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd y disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio yn yr ysgol. Ar y cyfan, mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n gadarnhaol, er nad oes cysondeb mewn dulliau marcio drwy'r ysgol gyfan. Mae athrawon yn cynorthwyo'r disgyblion i bennu targedau ar gyfer gwella yn effeithiol ac o ganlyniad mae mwyafrif y disgyblion yn canolbwyntio ar eu gwaith ac yn ymwybodol o sut i'w wella. Defnyddir strategaethau fel bawd i fyny, goleuadau traffig a thaflenni hunanasesu yn effeithiol i hyrwyddo hyn.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau ysgrifenedig priodol yn flynyddol i'r rhieni ar gynnydd eu plant sy'n cynnwys argymhellion clir ar sut i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Anogir disgyblion i fynegi barn ac i gyfrannu at rai datblygiadau o fewn yr ysgol. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn addas ac yn amserlennu sesiynau penodol ar ei gyfer. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol a chysylltiadau gydag asiantaethau allanol. Mae gan yr ysgol systemau priodol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r strwythurau a'r systemau ar gyfer rhoi cefnogaeth i ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig wedi eu gwreiddio'n drefnus ac yn effeithiol iawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cartrefol o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn, parch a chydraddoldeb. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau'n dda ac mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd priodol i drefnu amrywiol weithgareddau fel adeiladu'r ardd lysiau.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ble caiff pob disgybl ei drin fel unigolyn.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd priodol sy'n cael eu defnyddio'n dda. Gwneir defnydd effeithiol o ardal allanol y cyfnod sylfaen ac mae'r adnoddau o ansawdd da. Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn dda ac mae safon uchel yr arddangosfeydd dosbarth yn helpu i greu amgylchedd dysgu symbylus a chyfoethog.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei hadlewyrchu ym mlaenoriaethau'r ysgol. Mae aelodau'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth ac yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i'w gwireddu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi strategaethau priodol ar gyfer gweithredu'r blaenoriaethau.

Mae tîm rheoli'r ysgol yn rhoi arweiniad clir a manwl i'r ysgol. Mae disgwyliadau'n uchel.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Derbyniant adroddiadau rheolaidd ar gyraeddiadau'r disgyblion a sut maent yn cymharu â chyraeddiadau disgyblion ysgolion tebyg a chyfartaleddau Cymru. Cânt hefyd gyflwyniadau ar agweddau ar y cwricwlwm, sy'n eu helpu i bennu blaenoriaethau'r ysgol. Er bod y llywodraethwyr yn derbyn drafft o adroddiad hunan arfarnu'r ysgol ac yn ei drafod, nid ydynt yn cyfrannu'n weithredol ato.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn briodol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunan arfarnu yn ddogfen ddefnyddiol y mae'r ysgol yn eu defnyddio er mwyn adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r tîm rheoli ac athrawon eraill yn arfarnu agweddau o waith yr ysgol yn rheolaidd ac yn effeithiol yn eu cyfarfodydd wythnosol. Maent yn astudio'r data ar gyraeddiadau'r disgyblion yn fanwl. Maent yn ceisio barn rhieni yn anffurfiol ac ar ffurf holiadur ac yn gwrando ar y disgyblion drwy'r cyngor ysgol ac yn ymateb i'w sylwadau. Mae'r pennaeth yn archwilio gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn rheolaidd ac yn monitro'r dysgu a'r addysgu yn yr holl ddosbarthiadau. Er hynny, mae effeithiolrwydd rhai o'r strategaethau monitro, a thrylwyredd rhai o'r arfarniadau, yn cael eu tanseilio gan ddiffyg cofnodion ysgrifenedig.

Mae'r pennaeth a'r staff yn nodi blaenoriaethau gwelliant yn briodol ar sail yr arfarniadau o waith yr ysgol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys cyfres o dasgau priodol wedi'u cyplysu â phob blaenoriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r deilliannau disgwyliedig sy'n cael eu nodi wedi eu seilio'n ddigonol ar welliant yng nghyflawniadau disgyblion.

Arweiniodd y cynllun datblygu blaenorol at gyrhaeddiad uwch gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae'r athrawon yn cymryd rhan mewn dwy rwydwaith o arfer proffesiynol. Mae'r naill wedi arwain yn effeithiol at fwy o drylwyredd mewn asesu cyraeddiadau diwedd cyfnodau allweddol, a'r llall at ddatblygu medrau llythrennedd drwy waith cerddorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn dda. Mae Cyfeillion yr Ysgol wedi ariannu ystod o adnoddau dysgu defnyddiol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i rieni, ac mae aelodau'r tîm rheoli wedi cynnal cyfarfod llwyddiannus i esbonio agweddau cwricwlaidd a'r system asesu. Mae'r cyswllt agos gyda'r Cylch Meithrin, sydd yn cyfarfod yn y neuadd gymuned ar dir yr ysgol, yn hwyluso trosglwyddiad plant i'r dosbarth meithrin.

Mae cysylltiadau agos gyda sawl asiantaeth sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ar gyfer disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ceir ystod eang o asiantaethau sy'n darparu gweithgareddau a phrofiadau i'r disgyblion er mwyn cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'r gymuned leol ac o'r byd y tu hwnt i'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu profiad gwaith i ddisgyblion o ysgol uwchradd gyfagos.

Mae cyswllt priodol gydag ysgolion cynradd eraill a gyda'r ysgol uwchradd er mwyn derbyn hyfforddiant ar y cyd ac ar gyfer cymedroli asesiadau. Mae'r cysylltiadau hyn yn eu tro yn helpu'r ysgol i gyflawni'r nodau datblygu a osodwyd gan y rheolwyr.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i gynnig addysg briodol i'w disgyblion. Cânt eu rheoli'n effeithiol mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o'u medrau addysgu arbenigol. Gwna athrawon ddefnydd effeithlon o'u cyfnod cynllunio, paratoi ac asesu i baratoi gwersi a marcio gwaith y disgyblion. Mae gan bob athrawes ddisgrifiad swydd ac maent yn cymryd rhan briodol yn y trefniadau rheoli perfformiad. Mae'r athrawon yn manteisio ar hyfforddiant sy'n eu galluogi i weithredu'r strategaethau gwelliant a nodir yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae adeiladau, buarth a chae'r ysgol mewn cyflwr da a chedwir hwy yn lân ac yn drefnus. Defnyddia'r ysgol y neuadd gymuned gyfagos yn effeithiol ar gyfer gwasanaethau cyd-addoli, bwyta cinio a gwersi addysg gorfforol. Mae toiledau'r disgyblion, a ail-fodelwyd yn ddiweddar, o safon uchel.

Mae'r athrawon yn defnyddio adeiladau'r ysgol i'r eithaf. Mae arddangosfeydd o waith y disgyblion yn creu amgylchedd atyniadol ac yn annog dysgu. Mae'r ardal leol yn cael ei ddefnyddio yn dda ar gyfer gweithgareddau dysgu am gynaliadwyedd a'r amgylchedd.

Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau dysgu addas. Mae athrawon a disgyblion yn gwneud defnydd da o gyfrifiaduron a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu arall.

Mae rheolwyr yn sicrhau fod cyllideb yr ysgol yn cael ei gwario i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 wedi amrywio dros gyfnod o bum mlynedd, gyda'r tueddiadau'n gyffredinol ar i lawr ar gyfer y canran sy'n cyrraedd lefel 2 lefel dau yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac mewn cyfuniad o'r pynciau hyn.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyson yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae canran y disgyblion saith oed a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) dros y tair blynedd ddiwethaf mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol is na'r teulu a Chymru.  Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng disgyblion sydd â'r hawl i brydau am ddim o'u cymharu â rheini sydd heb yr hawl.  Mae bechgyn wedi cyflawni'n gyffredinol uwch na'r merched dros gyfnod o bum mlynedd.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros gyfnod o bum mlynedd.

Mae cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 1 mewn cyfuniad o ddarllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos tuedd ar i fyny ar gyfer y canran sy'n cyrraedd lefel 4 yn y Gymraeg, Saeseng, mathemateg a gwyddonaieth mewn cyfuniad.  Mae'r tuedd yn anwastad yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn gyson yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru ym mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y dangosydd pwnc craidd dros gyfnod o bum mlynedd.  Yn 2011 roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4 yn y Gymraeg yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru.  Yn y Saesneg, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd yr un lefel (lefel 4) yn debyg i gyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.

Mae canran y disgyblion 11 oed a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) dros y pum mlynedd ddiwethaf mewn Cymraeg a Saesneg yn dangos tuedd ar i lawr. Anwastad yw'r tuedd hwn mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng disgyblion sydd â'r hawl i brydau am ddim o'u cymharu â rheini sydd heb yr hawl.  Er nad oes patrwm dibynadwy o wahaniaeth rhwng lefelau perfformiad bechgyn o gymharu â merched dros gyfnod, yn 2011 roedd y merched yn perfformio'n sylweddol uwch na'r bechgyn.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Mae cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn cyfuniad o ddarllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos tuedd ar i fyny ac yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn 2011.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

**Holiaduron y disgyblion:**

Mae'r 40 ymateb a gafwyd gan y disgyblion yn gadarnhaol iawn. Mae pob un o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddyn nhw gael ymarfer corff;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a'u
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae bron pob un o'r farn:

- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith; a'u
- bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol;
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Ymateb i holiaduron y rhieni:**

O'r 26 ymateb a gafwyd oddi wrth rieni, mae pob un o'r farn:

- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol;

- bod yr addysgu'n dda;
- bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a
- bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae bron pob un o'r farn:

- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac gwneud ei orau;
- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael; ac
- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- eu bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer hefyd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Garth Higginbotham | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Doris Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Haf Williams | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol.  Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.